

Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid

Adolygiad Sector Cam 2

Gorffennaf 2022



Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad a chrynodeb gweithredol.....	3
Ein hymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad.....	5
Pennod 2: Trosolwg o'r sector	9
Pennod 3: Methodoleg	12
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	12
Holiadur ar-lein.....	13
Ystyriaethau methodolegol.....	13
Pennod 4: Ystod gyffredinol y cymwysterau	14
Ystod y cymwysterau	14
Ystyriaethau'r dyfodol	17
Cyd-destun ehangach y DU	18
Pennod 5: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg.....	20
Pennod 6: Cynnwys a pha mor gyfredol yw cymwysterau	23
Pennod 7: Asesu.....	25
Pennod 8: Casgliad	27

Pennod 1: Cyflwyniad a chrynodeb gweithredol

Yn y bennod yma, rydyn ni'n cyflwyno'r Adolygiad ac yn crynhoi'r canfyddiadau.

- 1.1** Croeso i'n hadolygiad o'r sector amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid. Dyma'r ail mewn cyfres o adolygiadau sector cam 2. Mae adolygiadau sector cam 2 yn fyrrach ac yn fwy dwys na'n hadolygiadau sector gwreiddiol.
- 1.2** Mae'r Adolygiad yn canolbwyntio ar gymwysterau lefel 1, 2 a 3 sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr dros 16 oed ac a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru. Mae'r rhain yn gymwysterau penodol sy'n cael eu sefyll mewn colegau addysg bellach, ysgolion uwchradd chweched dosbarth a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.
- 1.3** Mewn adolygiadau sector cam 2, rydyn ni'n ystyried:
 - a yw ystod y cymwysterau sydd ar gael yn y sector yn briodol i fodloni anghenion dysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr; ac
 - a yw argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn ddigonol i fodloni anghenion dysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr.
- 1.4** Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
 - **Trosolwg o'r sector** – rydyn ni'n cyflwyno data ar y cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid a gynigir yng Nghymru.
 - **Methodoleg** – rydyn ni'n amlinellu sut y gwnaethon ni gynnal yr Adolygiad.
 - **Canfyddiadau** – rydyn ni'n amlinellu canfyddiadau'r Adolygiad, a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd, mewn perthynas ag:
 - ystod gyffredinol y cymwysterau;
 - argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg;
 - cynnwys a pha mor gyffredol yw cymwysterau; ac
 - asesu cymwysterau.
- 1.5** Mewn perthynas â'r **ystod gyffredinol o gymwysterau** mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid, nododd yr Adolygiad:
 - er bod newidiadau polisi sylweddol i gymwysterau galwedigaethol yn digwydd yn Lloegr, cadarnhaodd cyrff dyfarnu eu dymuniad i barhau i gynnig ystod o gymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid.

- bod y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu o'r farn fod yr ystod bresennol o gymwysterau yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu dysgwyr a'u canolfan, ond mynegwyd pryderon ganddynt nad oedd rhai cymwysterau ar gael mwyach i ddysgwyr yng Nghymru.
- nad oedd cymhwyster Pearson BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth ar gael mwyach i ddysgwyr yng Nghymru, a dywedodd rhai ysgolion uwchradd nad oedd cymhwyster amgen addas ar gael ar gyfer dysgwyr cyn-16.
- bod rhai cyflogwyr a darparwyr dysgu wedi nodi bod galw am ddynodi'r cymwysterau lefel 1 a gynigir gan British Horse Society Qualifications (BHSQ) yng Nghymru.
- y byddai sawl darparwr dysgu yn croesawu cymhwyster lefel 1 mewn gwasanaethau anifeiliaid anwes i gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch yn y pwnc.
- bod darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi mynegi awydd i gynnwys llwybr heb oruchwyliaeth yn y cymwysterau ar fframweithiau prentisiaeth lefel 3 Garddwriaeth a Rheoli Adnoddau Cynaliadwy.

1.6 Mewn perthynas ag **argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg** mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid, nododd yr Adolygiad:

- fod cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod o ddarparwyr dysgu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd bod ystod addas o gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael gan randdeiliaid drwy gydol yr Adolygiad.
- nad oedd y City & Guilds Technegol Uwch Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth a Thechnegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg er gwaethaf galw gan golegau addysg bellach.
- nad oedd cymwysterau CIWM (WAMITAB) ar y fframweithiau prentisiaeth Rheoli Adnoddau Cynaliadwy ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg er eu bod yn cael eu defnyddio gan un ganolfan fawr ar draws Cymru gyfan sy'n cyfieithu manylebau ac asesiadau i allu cynnig y cymwysterau yn Gymraeg.

1.7 Mewn perthynas â **chynnwys a pha mor gyfredol yw cymwysterau**, nododd yr Adolygiad:

- fod darparwyr dysgu o'r farn bod cynnwys y rhan fwyaf o gymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid yn gyfredol, ond y byddai

rhai cymwysterau amaethyddiaeth yn elwa o gael cynnwys ar gadwraeth amgylcheddol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy¹.

- y byddai cymwysterau CIWM (WAMITAB), sy'n rhan o'r fframweithiau prentisiaeth Rheoli Adnoddau Cynaliadwy, yn elwa o gynnwys unedau dewisol ychwanegol ynghylch dulliau ailgylchu amgen.
- fod darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi awgrymu y gellid cael cynnwys ychwanegol ar fioleg anifeiliaid yng nghymhwyster City & Guilds Lefel 1 mewn Gofal Anifeiliaid Seiliedig ar waith.

1.8 Mewn partneriaeth â'r **asesiad o gymwysterau** mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid, nododd yr Adolygiad:

- fod y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu o'r farn bod maint yr asesu mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a chymwysterau gofal anifeiliaid yn briodol ac yn hylaw.
- fod colegau addysg bellach yn ystyried bod y profion synoptig a ddefnyddir gan City & Guilds yn ddull cadarn o asesu, er y gall fod yn anodd ei reoli gyda charfannau mawr o ddysgwyr.
- y gall y cyfnod amser a ganiateir ar gyfer prawf synoptig gofal anifeiliaid City & Guilds greu heriau i ddarparwyr dysgu ac mae angen ei amserlennu'n ofalus i sicrhau lles yr anifeiliaid sy'n ofynnol ar gyfer yr asesiadau.

Ein hymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad

1.9 Drwy gydol yr adroddiad rydyn ni wedi nodi'r camau rydyn ni eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr Adolygiad.

Camau rydyn ni wedi eu cymryd	
1	Fe wnaethon ni rannu gyda chyrrff dyfarnu'r holl bryderon gan randdeiliaid am gymwysterau nad oeddent bellach wedi eu dynodi, neu a oedd ar fin dod i ben. Gwnaethon ni annog yn gryf fod y cyrrff dyfarnu perthnasol yn ymestyn dynodiad y cymwysterau yr effeithir arnynt. Mewn ymateb i'n trafodaethau, mae'r cymwysterau perthnasol a nodwyd gan yr Adolygiad bellach wedi cael eu hymestyn. Er enghraifft, fe wnaethon ni gyfarfod â Pearson a rhannu gyda nhw bryderon gan ysgolion uwchradd â chweched dosbarth fod cymhwyster BTEC Lefel 2 Tystysgrif Estynedig mewn Amaethyddiaeth wedi dod i ben. Fe wnaethon ni annog Pearson i ymestyn dyddiad cychwyn terfynol

¹Mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir am y gwaith y maen nhw'n ei wneud i fodloni heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

	nodweddiadol y dynodiad, ac maen nhw wedi gwneud hynny tan fis Rhagfyr 2024 wrth iddynt weithio ar gynnig amgen.
2	Cyfarfuom â chorff dyfarnu BHSQ i rannu ein canfyddiadau am y galw gan gyflogwyr a darparwyr dysgu am Dystysgrif Lefel 1 mewn Marchogaeth Ceffylau BHS a chymwysterau Tystysgrif Lefel 1 mewn Gwybodaeth a Gofal Ceffylau BHS i'w dynodi yng Nghymru. Dywedodd cynrychiolwyr o BHSQ wrthyn ni eu bod yn bwriadu ymgysylltu â darparwyr dysgu yn ystod haf 2022 i archwilio'r galw am y cymwysterau hyn yng Nghymru ac, os gwelir bod galw, eu cyflwyno i'w dynodi.
3	Rydyn ni wedi rhannu â Llywodraeth Cymru y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r galw gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am lwybrau heb oruchwylio ar fframweithiau prentisiaeth lefel 3.
4	Fe wnaethon ni gyfarfod ag iPet a Lantra Awards a rhannu gyda nhw ein canfyddiadau y byddai canolfannau'n croesawu cymhwyster trin cŵn lefel 1 neu unedau trin cŵn ychwanegol o fewn y cymwysterau gofal anifeiliaid lefel 1 i gefnogi dilyniant dysgwyr i gymwysterau lefel uwch. Mae iPet wedi nodi y byddan nhw'n archwilio datblygu cymhwyster lefel 1 ym mis Rhagfyr 2022 ac mae Lantra ar hyn o bryd yn ymgysylltu â chanolfannau i archwilio'r galw am gymhwyster lefel 1 yn y pwnc hwn.
5	Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y canfyddiadau yn ymwneud ag argaeledd cymhwyster Technegol Uwch Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae City & Guilds wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais, ac rydyn ni wedi rhoi cyllid grant i City & Guilds i sicrhau bod y cymhwyster Technegol Uwch Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer y carfannau o ddysgwyr sy'n dechrau yn 2021/22 a 2022/23, wrth i ni gydweithio â nhw ar ddatblygu cymhwyster amaethyddiaeth dwyieithog lefel 3 priodol.
6	Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y canfyddiadau yn ymwneud â'r angen am gymwysterau Technegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae City & Guilds ar hyn o bryd yn ymgysylltu â chanolfannau i asesu'r galw am y Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid a chymwysterau cysylltiedig eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n gweithio gyda City & Guilds i ehangu'r cynnig dwyieithog priodol i gynnwys cymhwyster gofal anifeiliaid lefel 3.

7	Fe wnaethon ni rannu gyda CIWM (WAMITAB) y canfyddiadau yn ymwneud ag argaeledd eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i'n trafodaethau, maen nhw wedi gwneud cais llwyddiannus am ein Grant Cefnogi'r Gymraeg i sicrhau bod Diploma Lefel 2 ar gyfer Gweithgarwch Ailgylchu Cynaliadwy a Diploma Lefel 3 ar gyfer Gweithgarwch Ailgylchu Cynaliadwy (Goruchwyllo) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
8	Rydyn ni wedi cyfarfod â'r cyrff dyfarnu eraill sy'n cynnig cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid ac wedi eu hatgoffa bod ein Grant Cymorth i'r Gymraeg ar gael. Fe wnaethon ni eu hannog nhw i wneud cais am y grant i sicrhau bod cymwysterau cyfrwng Cymraeg addas ar gael yn y sector. Roedd yr ymatebion gan gyrff dyfarnu yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae Pearson wedi gwneud cais i sicrhau bod eu cymhwyster BTEC Dyfarniad Tech Lefel 1/Lefel 2 mewn Gofalu am Anifeiliaid newydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
9	Fe wnaethon ni rannu gyda CIWM (WAMITAB) y canfyddiadau yn ymwneud ag unedau dewisol ychwanegol, a'u hannog nhw i archwilio'r galw gyda'r darparwr dysgu seiliedig ar waith a rannodd yr adborth gyda ni. Dywedodd CIWM (WAMITAB) wrthyn ni y bydd yn mynd i'r afael â'r angen am gynnwys ychwanegol fel rhan o'r adolygiad o'u cymwysterau Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy lefel 2 a lefel 3 sydd i'w cyflawni yn hydref 2022.
10	Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y cais gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am gynnwys ychwanegol ar fioleg anifeiliaid yn y cymhwyster Lefel 1 mewn Gofal Anifeiliaid Seiliedig ar Waith. Mae City & Guilds wedi dweud wrthyn ni y byddan nhw'n archwilio'r angen am gynnwys ychwanegol ar fioleg anifeiliaid gyda chanolfannau yn hydref 2022 ac, os oes angen, diweddarau cymhwyster Lefel 1 mewn Gofal Anifeiliaid sy'n Seiliedig ar Waith.
11	Fe wnaethon ni hefyd rannu gyda City & Guilds yr awydd gan ddarparwyr dysgu am gymwysterau amaethyddiaeth i gael cynnwys ychwanegol ar gadwraeth amgylcheddol, cynaliadwyedd a chynhyrchu bwyd. Mae City & Guilds wedi nodi bod eu hymgysylltiad â chanolfannau hefyd wedi amlygu'r awydd hwn. Byddan nhw'n mynd i'r afael â'r awydd hwn drwy ddatblygu cynnig dwyieithog priodol ar gyfer cymhwyster amaethyddiaeth lefel 3.
12	Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y canfyddiadau yn ymwneud â hyd y cyfnod asesu ar gyfer profi synoptig yng nghymwysterau Lefel 3 Technegol Uwch mewn Rheoli Anifeiliaid. Dywedodd City & Guilds wrthyn ni y byddan nhw'n archwilio'r pryderon hyn gyda chanolfannau yn hydref 2022 ac yn adolygu hyd y cyfnod synoptig.

13	Fe wnaethon ni gyfarfod â chorff dyfarnu BHSQ a rhannu'r canfyddiadau yn ymwneud ag amserlennu asesiadau ar gyfnodau amser penodol nad ydynt bob amser yn cyd-fynd â dyddiadau cwblhau prentis. Dywedasant wrthyn ni y byddan nhw'n cymhwys, lle bo'n briodol, unrhyw ofynion asesu ac maen nhw'n annog canolfannau i roi gwybod iddynt am eu hanghenion. Rydyn ni wedi cyfleu hyn i'r canolfannau dan sylw.
14	Fe wnaethon ni rannu canfyddiadau'r Adolygiad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a thynnu eu sylw at y canfyddiadau'n ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'u diweddarau nhw ar y cymwysterau amaethyddiaeth newydd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pennod 2: Trosolwg o'r sector

Yn y bennod yma, rydyn ni'n cyflwyno data sy'n ymwneud â'r cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid a gynigir yng Nghymru.

2.1 Mae amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid yn faes sector eang sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau. Yn ogystal â'r pynciau troswaol, mae'r sector hefyd yn cynnwys, er enghraifft, coedwigaeth, ceffylau, a rheoli gwastraff. Fel y dangosir yn Nhabl 1², mae 179 o gymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid dynodedig ar gael ar lefel 3 ac is yng Nghymru.

Tabl 1: Nifer y cymwysterau dynodedig sydd ar gael yng Nghymru

Lefel Mynediad	Lefel 1	Lefel 1 /Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Cyfanswm
20	19	1	74	65	179

2.2 Dangosodd data o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a chronfeydd data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2019/20 fod dros 2,000 o gofrestriadau, ar gyfer cymwysterau yn y sector hwn, wedi'u cofnodi ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ledled Cymru (Tabl 2³).

Tabl 2: Cofrestriadau ar gymwysterau dynodedig yn y sector amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid ar draws mathau o ddarparwyr yn 2019/20

Lefel	Cofrestriadau mewn addysg bellach	Cofrestriadau mewn ysgolion uwchradd	Cofrestriadau mewn dysgu seiliedig ar waith	Cyfanswm cofrestriadau
Lefel Mynediad	20	*	0	20
Lefel 1	185	10	20	215
Lefel 1/ Lefel 2	0	25	0	25
Lefel 2	635	300	255	1,190
Lefel 3	635	30	225	895
Cyfanswm	1,475	370	500	2,345

² Data o QiW 18 Mai 2022.

³ Ffynhonnell: Dadansoddiad Cymwysterau Cymru o ddata Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) Llywodraeth Cymru ar gyfer cofrestriadau 2019-20 (mae niferoedd y cofrestriadau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf a chynrychiolir unrhyw ffigur sy'n llai na 5 ond sy'n fwy na 0 gyda *). Mae'r data'n cynnwys cofrestriadau cymwysterau mewn ysgolion uwchradd a gynhelir ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16. Mae'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai nad ydynt yn cyd-fynd â swm y ffigurau wedi'u talgrynnu. Nid oedd data WED a LLWR ar gyfer 20/21 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

2.3 Yn 2019/20, roedd naw corff dyfarnu yn cynnig cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid yng Nghymru. City & Guilds oedd i gyfrif am y mwyafrif (60%) o gofrestriadau yn 2019/20 (Tabl 3³).

Tabl 3: Cofrestriadau yn 2019/20 fesul lefel cymhwyster ar draws cyrff dyfarnu

Corff Dyfarnu	Lefel Mynediad	Lefel 1	Lefel 1 /Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Cyfan -swm	Cyfran o'r Farchnad
City & Guilds	0	215	0	545	635	1,395	60%
Pearson	0	0	25	430	175	630	27%
CIWM (WAMITAB)	0	0	0	95	60	155	7%
Royal Horticultural Society (RHS)	0	0	0	75	0	75	3%
British Horse Society Qualifications (BHSQ)	0	0	0	15	15	30	1%
1st4sport Qualifications	*	0	0	15	5	25	1%
Agored Cymru	20	0	0	0	0	20	<1%
Skills and Education Group Awards (SEG)	0	0	0	10	0	10	<1%
Lantra Awards	0	0	0	5	0	5	<1%

2.4 Dangosir y cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid â'r nifer uchaf o gofrestriadau yn 2019/20 ar draws ysgolion uwchradd a gynhelir, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru yn Nhabl 4³. Mae'r data'n dangos bod chwech o'r deg cymhwyster gyda'r nifer uchaf o gofrestriadau yn 2019/20 wedi'u cynnig gan City & Guilds.

Tabl 4: Cymwysterau â'r cofrestrïadau cyffredinol uchaf ar gyfer 2019/20


Teitl y cymhwyster	Cofrestrïadau mewn addysg bellach	Cofrestrïadau mewn dysgu seiliedig ar waith	Cofrestrïadau mewn ysgolion uwchradd	Cyfanswm cofrestrïadau
Pearson BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth	0	0	195	195
City & Guilds Tystysgrif Dechnegol Lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid	155	0	0	155
City & Guilds Diploma Estynedig Technegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid (ODA 1080)	120	0	0	120
City & Guilds Diploma Lefel 1 mewn Astudiaethau Tir	105	0	0	105
City & Guilds Diploma Technegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid (ODA 540)	105	0	0	105
City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Milfeddygol	5	55	0	60
CIWM (WAMITAB) Diploma Lefel 2 ar gyfer Gweithgarwch Ailgylchu Cynaliadwy	20	35	0	55
City & Guilds Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid	50	0	0	50
RHS Tystysgrif Lefel 2 mewn Garddwriaeth Ymarferol	50	0	0	50
Pearson BTEC Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth	45	0	0	45

Pennod 3: Methodoleg

Yn y bennod yma, rydyn ni'n amlinellu sut y gwnaethon ni gynnal yr adolygiad sector cam 2 hwn.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.1 Aethon ni i'r afael â nodau'r Adolygiad trwy gyfweiliadau manwl â rhanddeiliaid ac arolwg dysgwyr ar-lein. Fel y dangosir yn Ffigur 1, cynhalion ni 45 o gyfweiliadau ag ystod o rhanddeiliaid perthnasol, a chasglwyd safbwyntiau 145 o ddysgwyr trwy ein harolwg ar-lein.



Ffigur 1 – Rhanddeiliaid a gyfwelwyd

3.2 Ar ddechrau'r Adolygiad, buom yn cyfweled â'r holl gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid yng Nghymru i drafod eu cynlluniau ar gyfer parhau i gynnig cymwysterau o fewn cwmpas yr Adolygiad. Yna cynhaliwyd cyfarfodydd dilynol gyda'r gyrff dyfarnu i drafod y canfyddiadau a oedd yn dechrau dod i'r amlwg a'r datrysiadau posibl.

3.3 Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig manwl gyda darparwyr dysgu, cyflogwyr a chyrff proffesiynol. Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams gyda thîm bach o staff o Cymwysterau Cymru rhwng mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022. Trawsgrifiwyd y cyfweiliadau air am air a'u dadansoddi gan y Tîm Adolygu. Ar ôl i'r holl drawsgrifiadau gael eu

dadansoddi, daeth adolygwyr at ei gilydd i gytuno ar themâu trawsbynciol a ddaeth i'r amlwg ar draws y grwpiau o gyfranogwyr.

Holiadur ar-lein

3.4 Er mwyn casglu safbwyntiau dysgwyr am eu cymwysterau, trefnwyd bod holiadur ar gael trwy lwyfan Smart Survey rhwng mis Hydref 2021 a mis Ionawr 2022. Barnwyd mai arolwg oedd y dull mwyaf addas o gasglu barn dysgwyr i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i gyfrannu, a gellid cwblhau'r arolwg pan oedd hi'n gyfleus i osgoi unrhyw faich ychwanegol ar ddysgwyr a chanolfannau.

3.5 Cawson ni gyfanswm o 111 o ymatebion llawn, a 34 o ymatebion rhannol. Roedd 80% o'r ymatebwyr yn bobl ifanc 16–19 oed a oedd yn astudio mewn colegau addysg bellach, ond cawson ni hefyd ymatebion gan ddysgwyr a oedd yn astudio mewn ysgolion uwchradd â chweched dosbarth a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Ystyriaethau methodolegol

3.6 Er nad oedd hi'n bosibl ymgysylltu â phawb, rydyn ni'n hyderus ein bod wedi gallu sicrhau sampl sy'n cynrychioli'r grwpiau rhanddeiliaid ar draws y sector. Fel gydag adolygiadau sector blaenorol, mae wedi bod yn galonogol cael lefel uchel o gysondeb rhwng y canfyddiadau sydd wedi dod i'r amlwg o drafodaethau gyda gwahanol randdeiliaid.

3.7 Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r ymatebion i'n holiadur ar-lein yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i ni i farn a chanfyddiadau'r rhai dan sylw. Rydyn ni wedi cyflwyno'r farn a fynegwyd yn gywir, ond nid ydyn ni bob amser yn gallu dilysu na gwerthuso cywirdeb y safbwyntiau hynny.

Pennod 4: Ystod gyffredinol y cymwysterau

Yn y bennod yma, rydyn ni'n adrodd ar y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ystod o gymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid a gynigir yng Nghymru.

Ystod y cymwysterau

- 4.1** Mae ystod o gymwysterau ar gael yn y sector hwn, a dywedodd cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu wrthyn ni fod y cymwysterau a gynigir yng Nghymru ar hyn o bryd yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr. Mewn ymateb i'r arolwg dysgwyr, dywedodd 94% o ddysgwyr wrthyn ni hefyd fod ganddyn nhw ddigon o opsiynau wrth ddewis pa gymwysterau i'w hastudio. Rhoddodd cynrychiolwyr o gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid sicrwydd i ni ynghylch parhad eu cynnig yng Nghymru. Dywedon nhw nad oedd ganddyn nhw unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i dynnu unrhyw gymwysterau yn ôl, lle mae angen neu alw amdanyn nhw yng Nghymru.

"Mae gennyn ni'r ystod honno o gyrsiau ymarferol, cyrsiau sy'n seiliedig ar theori, lefel mynediad, lefel 1, lefel 2, lefel 3, mae gennyn ni'r [City & Guilds] Technegol, a'r ystod lawn o amaethyddiaeth, cefn gwlad, garddwriaeth, anifeiliaid a cheffylau. Felly, mae ystod dda iawn o gyrsiau. Mae gennyn ni rywbeth yno sy'n addas ar gyfer pob lefel o ddysgwyr."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

- 4.2** Dywedodd cynrychiolwyr o sawl darparwr dysgu wrthyn ni fod y Lefel 1 mewn Astudiaethau Tir, a gynigir gan Pearson a City & Guilds, yn cynnwys ystod o unedau perthnasol sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddilyn llwybrau gwahanol o fewn y sector ac sy'n galluogi darparwyr dysgu i deilwra'r cymhwyster i anghenion gwahanol gyflogwyr.

"Fe symudon ni draw i'r cymhwyster astudiaethau tir [City & Guilds] oherwydd ein bod ni'n gwneud y cymhwyster gofal anifeiliaid penodol ac mewn gwirionedd mae'r un ar y tir yn ein galluogi ni i allu mynd ar draws mwy o sectorau."

Tiwtor dysgu seiliedig ar waith

- 4.3** Fodd bynnag, mynegwyd pryderon, gan gynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu, fod rhai cymwysterau yn dod i ddiwedd eu dyddiadau cychwyn terfynol

nodweddiadol⁴ ac nad oeddent wedi cael eu hystyngiadau na'u disodli eto gan gyrff dyfarnu. Er enghraifft, dywedodd cynrychiolwyr o golegau addysg bellach wrthyn ni nad oedd City & Guilds Diploma Lefel 2 mewn Gofalu am Anifeiliaid ar gael mwyach i ddysgwyr yng Nghymru, ac mae hyn wedi golygu nad yw dysgwyr lefel 1 wedi gallu symud ymlaen i astudio'r cymhwyster hwn.

"Mae'n frwydr barhaus i sicrhau bod cymwysterau presennol wedi'u diweddarau ar y rhestr ariannu. Ar hyn o bryd mae gennyn ni gymwysterau Technegol Gofalu am Anifeiliaid Lefel 2 [City & Guilds] heb eu hariannu."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

- 4.4** Codwyd enghraifft bellach o bryderon ynghylch argaeledd cymwysterau gan gynrychiolwyr o ysgolion uwchradd â chweched dosbarth. Dywedasant wrthyn ni nad oedd Pearson BTEC Tystysgrif Estynedig Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth, a ddarperir yn bennaf i bobl ifanc 14–16 oed, ar gael i'w hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru mwyach. Er mai prif ffocws yr Adolygiad oedd cymwysterau a ddarparwyd fel rhan o raglenni dysgu ôl-16, roedd yn bwysig mynd i'r afael â'r mater yma gan fod y cymhwyster hwn yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg mewn sawl ysgol uwchradd a choleg addysg bellach. Dywedwyd wrthyn ni hefyd nad oedd cymhwyster amgen addas ar gael.

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda chyrrff dyfarnu'r holl bryderon gan randdeiliaid am gymwysterau nad oeddent bellach wedi eu dynodi, neu a oedd ar fin dod i ben. Gwnaethon ni annog yn gryf fod y cyrrff dyfarnu perthnasol yn ymestyn dynodiad y cymwysterau yr effeithir arnynt. Mewn ymateb i'n trafodaethau, mae'r cymwysterau perthnasol a nodwyd gan yr Adolygiad bellach wedi cael eu hystyngiadau. Er enghraifft, fe wnaethon ni gyfarfod â Pearson a rhannu gyda nhw bryderon gan ysgolion uwchradd â chweched dosbarth fod cymhwyster BTEC Lefel 2 Tystysgrif Estynedig mewn Amaethyddiaeth wedi dod i ben. Fe wnaethon ni annog Pearson i ymestyn dyddiad cychwyn terfynol nodweddiadol y dynodiad, ac maen nhw wedi gwneud hynny tan fis Rhagfyr 2024 wrth iddynt weithio ar gynnig amgen.

⁴ Dyddiad cychwyn terfynol dynodiad/cymeradwyaeth nodweddiadol yw'r dyddiad olaf y gall dysgwyr ddechrau cwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, yn seiliedig ar fodel cyflwyno arferol.

4.5 Siaradodd cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu a dysgwyr yn gadarnhaol am y cymwysterau a gynigir gan gorff dyfarnu BHSQ gan ddweud bod cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r cymwysterau'n fawr ac yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth yn ymwneud â cheffylau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthyn ni gan gyflogwyr a darparwyr dysgu yr hoffon nhw fod Tystysgrif Lefel 1 mewn Marchogaeth BHS a Thystysgrif Lefel 1 mewn Gwybodaeth am Geffylau a Gofalu am Geffylau BHS yn cael eu dynodi'n gymwys ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Cyfarfuom â chorff dyfarnu BHSQ i rannu ein canfyddiadau am y galw gan gyflogwyr a darparwyr dysgu am Dystysgrif Lefel 1 mewn Marchogaeth Ceffylau BHS a chymwysterau Tystysgrif Lefel 1 mewn Gwybodaeth a Gofal Ceffylau BHS i'w dynodi yng Nghymru. Dywedodd cynrychiolwyr o BHSQ wrthyn ni eu bod yn bwriadu ymgysylltu â darparwyr dysgu yn ystod haf 2022 i archwilio'r galw am y cymwysterau hyn yng Nghymru ac, os gwelir bod galw, eu cyflwyno i'w dynodi.

4.6 Clywson ni bryderon gan un darparwr dysgu mawr seiliedig ar waith ar gyfer Cymru gyfan am y gofynion o fewn y cymhwyster Diploma Lefel 3 ar gyfer Gweithgarwch Ailgylchu Cynaliadwy sy'n rhan o fframwaith prentisiaeth Lefel 3 Rheoli Adnoddau Cynaliadwy. Dywedasant wrthyn ni fod angen i unigolion fod mewn rolau goruchwylio i allu ymgymryd â'r unedau goruchwylio tîm gorfodol o fewn y cymhwyster. Mynegwyd pryderon ganddyn nhw fod hyn yn cyfyngu ar ddilyniant rhai unigolion gan fod nifer y rolau goruchwylio mewn diwydiant yn gyfyngedig. Awgrymwyd pe bai'r unedau goruchwylio hyn yn dod yn ddewisol y gallai mwy o ddysgwyr symud ymlaen i'r cymhwyster lefel 3.

4.7 Codwyd pryder tebyg gan gynrychiolwyr o ddarparwr dysgu seiliedig ar waith arall a ddywedodd wrthyn ni fod City & Guilds Diploma Lefel 3 mewn Garddwriaeth Seiliedig ar Waith, sy'n rhan o fframwaith prentisiaeth Lefel 3 Garddwriaeth, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feddu ar rôl oruchwylio sy'n effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i brentisiaeth lefel 3.

"Mae gennyn ni lawer iawn ar lefel 2 sydd wedi gorffen eu cymhwyster garddwriaeth a gallan nhw wneud [cymhwyster] lefel 3 yn hawdd ond dydyn nhw ddim mewn swydd lle maen nhw'n rheoli unrhyw un neu brosiect."

Tiwtor dysgu seiliedig ar waith

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Rydyn ni wedi rhannu â Llywodraeth Cymru y canfyddiadau sy'n ymwneud â'r galw gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am lwybrau heb oruchwylio ar fframweithiau prentisiaeth lefel 3.

Ystyriaethau'r dyfodol

- 4.8** Nododd cynrychiolwyr sawl darparwr dysgu fod meysydd pwnc o fewn gwasanaethau anifeiliaid anwes megis pincio cŵn, gwarchod anifeiliaid anwes, a lles anifeiliaid anwes yn tyfu o ran y galw gan ddysgwyr. Fodd bynnag, dywedodd cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu wrthyn ni nad oes unrhyw gymwysterau pincio cŵn lefel 1 addas wedi'u dynodi yng Nghymru. Dywedasant wrthyn ni y gallai naill ai cymhwyster pincio cŵn lefel 1 neu unedau dewisol ychwanegol o fewn y cymwysterau gofal anifeiliaid lefel 1 roi sgiliau rhagarweiniol mewn pincio cŵn i ddysgwyr a'u cynorthwyo i symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch yn y pwnc hwn.

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni gyfarfod ag iPet a Lantra Awards a rhannu guda nhw ein canfyddiadau y byddai canolfannau'n croesawu cymhwyster pincio cŵn lefel 1 neu unedau pincio cŵn ychwanegol o fewn y cymwysterau gofal anifeiliaid lefel 1 i gefnogi dilyniant dysgwyr i gymwysterau lefel uwch. Mae iPet wedi nodi y byddan nhw'n archwilio datblygu cymhwyster lefel 1 ym mis Rhagfyr 2022 ac mae Lantra ar hyn o bryd yn ymgysylltu â chanolfannau i archwilio'r galw am gymhwyster lefel 1 yn y pwnc hwn.

- 4.9** Dywedodd cynrychiolwyr o rai colegau addysg bellach wrthyn ni eu bod yn ystyried cyflwyno cymwysterau mewn cadwraeth amgylcheddol a rheoli cefn gwlad, gan gynnwys coedyddiaeth a choedwigaeth, i alinio â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd¹. Mae cymwysterau yn y meysydd pwnc hyn ar gael i'w cyflwyno yng Nghymru ar hyn o bryd.

“Rwy’n meddwl yn arbennig am y sector amgylcheddol, felly fe wnaethon ni nodi cwpl o flynyddoedd yn ôl mai dyna mae’n debyg yw ein maes twf mwyaf posibl ar gyfer diwallu anghenion cyflogwyr lleol ac rwy’n meddwl yn y tymor hir fel coleg fod hynny’n rhywbeth bydd angen i ni ymchwilio, sef y cynnig llawn amser o goedwigaeth, coedyddiaeth, a rheolaeth tir a chefn gwlad.”

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

4.10 Dywedodd cynrychiolwyr o rai colegau addysg bellach ac ysgolion uwchradd â chweched dosbarth fod niferoedd y dysgwyr ar gymwysterau amaethyddiaeth a garddwriaeth yn gostwng. Dywedodd cyflogwyr wrthyn ni eu bod nhw’n cael trafferth llenwi swyddi gwag mewn amrywiaeth o alwedigaethau, megis gofalu am y grŵn, coedwigaeth a rheoli tir. Dywedwyd wrthyn ni hefyd fod nyrsio milfeddygol yn profi prinder. Dywedodd cyflogwyr y bydden nhw’n croesawu mwy o gymorth i ddysgwyr aeddfed gael mynediad at y cymwysterau gan fod gofynion mynediad TGAU Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yn gallu bod yn rhwystr posibl.

“Mae ‘na lawer o swyddi allan yna, ond mae'r ymgysylltu rydyn ni wedi'i gael gyda rhai tirlunwyr lleol yn awgrymu eu bod nhw’n ei chael hi'n anodd iawn recriwtio unrhyw un. Ac eto mae gennyn ni niferoedd ofnadwy o isel o ddysgwyr yn genedlaethol sydd eisiau astudio garddwriaeth – dyw hyn ddim yn cyd-fynd â'i gilydd.”

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

Cyd-destun ehangach y DU

4.11 Mae newidiadau polisi sylweddol i gymwysterau galwedigaethol yn digwydd yn Lloegr mewn ymateb i Gynllun Sgiliau Ôl-16 Llywodraeth y DU⁵. Yn benodol, mae Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi dechrau cyhoeddi rhestrau o gymwysterau lefel 3 sy'n gorgyffwrdd â'i hystod o gymwysterau 'lefel T' ac y bydd o ganlyniad yn eu 'dad-ariannu' yn Lloegr. Disgwyliwn i'r rhestr o gymwysterau lefel 3 sy'n gorgyffwrdd â thonnau 3 a 4 o lefelau T, sy'n cynnwys cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid, gael ei chyhoeddi yn 2023. Nid yw'r 'dad-ariannu' hwn yn berthnasol yng Nghymru.

4.12 Rydyn ni wedi cynnal trafodaethau rheolaidd â'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau y mae cyflwyno 'lefelau T' yn Lloegr yn debygol o effeithio arnynt,

⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/536043/Post-16_Skills_Plan.pdf

yn ogystal â thrafodaethau penodol â chyrrff dyfarnu fel rhan o adolygiadau sector cam 2. Mae'r holl drafodaethau hyn wedi bod yn galonogol gadarnhaol ac mae cyrrff dyfarnu wedi cadarnhau eu dymuniad i barhau i fod yn weithgar yng Nghymru. Er enghraifft, ar adeg ysgrifennu hwn, mae City & Guilds yn ymgysylltu â chanolfannau yng Nghymru gyda'r bwriad o greu cymhwyster lefel 3 newydd mewn amaethyddiaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru yn y tymor hwy. Yn ogystal, mae Pearson wedi ymestyn dyddiadau dynodi dechrau ystod o'u cymwysterau BTEC lefel 3 – gan gynnwys cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth ac anifeiliaid – i Awst 2026 gydag ardystiadau tan fis Awst 2028 (sy'n golygu y gall o leiaf pedair carfan arall gymryd y cymwysterau hynny) i ddarparu sicrwydd tymor canolig i ddysgwyr a darparwyr yng Nghymru. Mae cyrrff dyfarnu eraill hefyd wedi mynegi awydd i barhau i gynnig cymwysterau yng Nghymru yn y sector hwn.

Pennod 5: Cymwysterau cyfrwng Cymraeg

Mae argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn un o'r ddwy brif ystyriaeth mewn adolygiadau sector cam 2 ac yn y bennod yma, rydyn ni'n cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chymwysterau cyfrwng Cymraeg.

- 5.1** Dywedodd cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith wrthyn ni eu bod yn cynnig cymwysterau amaethyddiaeth a garddwriaeth seiliedig ar waith City & Guilds trwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedon nhw fod cymwysterau cyfrwng Cymraeg eraill ar gael, ond bod y galw gan ddysgwyr yn isel.
- 5.2** Pwysleisiodd cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd â chweched dosbarth a cholegau addysg bellach cyfrwng Cymraeg bwysigrwydd bod cymwysterau amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig.

"Mae hi mor bwysig fod gennyn ni ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg oherwydd mae'r plant amaethyddol yn dueddol o fod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith, dyma eu hiaith gyntaf. Mae mor bwysig eu bod yn gallu gwneud y cyrsiau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg, felly mae'n wirioneddol hanfodol i ni."

Athro mewn ysgol uwchradd â chweched dosbarth

- 5.3** Cododd cynrychiolwyr o golegau addysg bellach y pryder nad oedd City & Guilds Diploma Estynedig Technegol Uwch Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhannwyd y pryder hwn gyda ni hefyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hwn yn gymhwyster mawr, cyfwerth mewn maint â thri chymhwyster Safon Uwch, gyda swm sylweddol o asesu allanol sy'n ei gwneud yn heriol i City & Guilds ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o ddysgwyr eisiau cwblhau'r cymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg mewn tri choleg addysg bellach.

"...mae ein holl gymwysterau'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, ac mae dysgwyr yn cael cyfleoedd asesu, lle bo hynny ar gael, ond tan bydd cwrs City & Guilds ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n eithaf anodd."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y canfyddiadau yn ymwneud ag argaeledd cymhwyster Technegol Uwch Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae City & Guilds wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais, ac rydyn ni wedi rhoi cyllid grant i City & Guilds i sicrhau bod y cymhwyster Technegol Uwch Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer y carfannau o ddysgwyr sy'n dechrau yn 2021/22 a 2022/23, wrth i ni gydweithio â nhw ar ddatblygu cymhwyster amaethyddiaeth dwyieithog lefel 3 priodol.

- 5.4** Dywedodd cynrychiolwyr o golegau addysg bellach, a dysgwyr fel rhan o'n harolwg, wrthyn ni fod galw i City & Guilds Technegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd cynrychiolwyr o un coleg addysg bellach wrthyn ni eu bod nhw wedi parhau i gyflwyno cymwysterau City & Guilds Diploma Estynedig Lefel 3 ar gyfer amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid, oherwydd eu bod yn cael eu hasesu'n fewnol a bod modd eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Ond yn sicr, mae'r iaith Gymraeg yn broblem enfawr ac rydyn ni wedi gwneud penderfyniad y flwyddyn academaidd yma i fynd yn ôl at gymwysterau gwaddol [City & Guilds] dim ond fel eu bod yn gallu gweinyddu'r aseiniadau gwaith cwrs yn y ffordd draddodiadol nad oes rhaid eu rhyddhau fel papur arholiad. Felly, mae'r staff yn gallu sicrhau eu bod yn cael eu cyfieithu a bod y myfyrwyr yn gallu cwblhau'r gwaith yn Gymraeg."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y canfyddiadau yn ymwneud â'r angen am gymwysterau Technegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae City & Guilds ar hyn o bryd yn ymgysylltu â chanolfannau i asesu'r galw am y Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid a chymwysterau cysylltiedig eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni'n gweithio gyda City & Guilds i ehangu'r cynnig dwyieithog priodol i gynnwys cymhwyster gofal anifeiliaid lefel 3.

5.5 Dywedodd cynrychiolwyr un darparwr dysgu mawr seiliedig ar waith, Cymru gyfan wrthyn ni fod angen iddyn nhw ddefnyddio'r swyddogaeth iaith ar y llwyfan e-bortffolio, Learning Assistant, i gynnig cymwysterau gweithgareddau ailgylchu cynaliadwy CIWM (WAMITAB) yn ddwyieithog gan nad oeddyn nhw ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae gennyn ni [alw] yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd ac Ynys Môn, felly o Learning Assistant gallwn ni wasgu botwm a fydd yn newid yr holl safonau yn awtomatig i amrywiaeth o ieithoedd. Rydyn ni wedi defnyddio'r cyfleuster hwnnw [i gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg]."

Tiwtor dysgu seiliedig ar waith

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda CIWM (WAMITAB) y canfyddiadau yn ymwneud ag argaeledd eu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ymateb i'n trafodaethau, maen nhw wedi gwneud cais llwyddiannus am ein Grant Cefnogi'r Gymraeg i sicrhau bod Diploma Lefel 2 ar gyfer Gweithgarwch Ailgylchu Cynaliadwy a Diploma Lefel 3 ar gyfer Gweithgarwch Ailgylchu Cynaliadwy (Goruchwylio) ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.6 Dywedodd cynrychiolwyr o ddarparwr dysgu seiliedig ar waith wrthyn ni fod mwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu i gefnogi athrawon a dysgwyr. Er enghraifft, dywedwyd wrthyn ni am yr effaith gadarnhaol roedd yr adnoddau amaethyddiaeth cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ei chael ar ddarparu cymwysterau amaethyddiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ein harolwg dysgwyr, dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wrthyn ni eu bod yn teimlo bod ganddyn nhw ddigon o adnoddau cyfrwng Cymraeg i'w cefnogi i ymgymryd â'u cymwysterau.

"Mae gennyn ni'r holl adnoddau amaethyddiaeth [seiliedig ar waith] bellach ar gael yn ddwyieithog ac maen nhw [Coleg Cymraeg Cenedlaethol] newydd ddechrau cyfieithu rhai o'r rhai garddwriaethol."

Tiwtor dysgu seiliedig ar waith

Pennod 6: Cynnwys a pha mor gyfredol yw cymwysterau

Yn y bennod yma, rydyn ni'n cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â chynnwys a pha mor gyfredol yw cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid a gynigir yng Nghymru.

- 6.1** Dywedodd cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu wrthyn ni fod y cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid maen nhw'n eu cynnig yn gyfredol a chanddynt gynnwys perthnasol. Er enghraifft, dywedodd cynrychiolwyr o holl ysgolion uwchradd â chweched dosbarth fod cymwysterau amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid BTEC lefel 2 a lefel 3 Pearson yn darparu'r cynnwys diweddaraf. Mewn ymateb i'r arolwg dysgwyr, dywedodd 98% o ddysgwyr fod eu cymhwyster yn ddifyr ac yn ddiddorol.

"Rydw i wrth fy modd â'r gwahanol bynciau rydyn ni'n eu cwmpasu. Mae pob un yn unigryw ac yn ddiddorol yn ei ffordd ei hun."

Dysgwr

- 6.2** Dywedodd cynrychiolwyr o un darparwr dysgu mawr seiliedig ar waith, Cymru gyfan sy'n darparu cymwysterau gweithgareddau ailgylchu cynaliadwy CIWM (WAMITAB) wrthyn ni y byddai'r cymwysterau'n elwa o unedau dewisol ychwanegol i gynnwys y gwahanol dechnolegau a datblygiadau yn y dyfodol yn y sector hwn.

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda CIWM (WAMITAB) y canfyddiadau yn ymwneud ag unedau dewisol ychwanegol, a'u hannog nhw i archwilio'r galw gyda'r darparwr dysgu seiliedig ar waith a rannodd yr adborth gyda ni. Dywedodd CIWM (WAMITAB) wrthyn ni y bydd yn mynd i'r afael â'r angen am gynnwys ychwanegol fel rhan o'r adolygiad o'u cymwysterau Gweithgareddau Ailgylchu Cynaliadwy lefel 2 a lefel 3 sydd i'w cyflawni yn hydref 2022.

- 6.3** Mynegodd cynrychiolwyr o rai darparwyr dysgu seiliedig ar waith awydd i gymwysterau City & Guilds Lefel 1 mewn Gofal Anifeiliaid Seiliedig ar Waith gael cynnwys ar fioleg anifeiliaid, gan y byddai hyn yn cefnogi dysgwyr pan fyddan nhw'n symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch perthnasol.

"Does dim bioleg anifeiliaid, ac maen nhw [tiwtoriaid] yn teimlo bod bioleg sylfaenol bob amser yn dod i mewn i'r cymwysterau eraill. Mae e ar goll yn anifeiliaid, a dyna'r unig beth oedden nhw'n gallu ei ddweud maen nhw'n teimlo sydd ar goll. Felly efallai bydd angen i rywfaint o fioleg sylfaenol fod yn un o'r unedau gorfodol."

Tiwtor dysgu seiliedig ar waith

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y cais gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am gynnwys ychwanegol ar fioleg anifeiliaid yn y cymhwyster Lefel 1 mewn Gofal Anifeiliaid Seiliedig ar Waith. Mae City & Guilds wedi dweud wrthyn ni y byddan nhw'n archwilio'r angen am gynnwys ychwanegol ar fioleg anifeiliaid gyda chanolfannau yn hydref 2022 ac, os oes angen, diweddarau cymhwyster Lefel 1 mewn Gofal Anifeiliaid sy'n Seiliedig ar Waith.

6.4 Dywedodd cynrychiolwyr o golegau addysg bellach wrthyn ni y gallai cymwysterau amaethyddiaeth elwa o uned gyffredinol ar ymchwil a datblygu i ganiatáu archwilio technolegau modern, yn ogystal â chynnwys ychwanegol ar gadwraeth amgylcheddol, cynaliadwyedd, a chynhyrchu bwyd. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy¹ newydd i ffermwyr yng Nghymru yn canolbwyntio mwy ar gadwraeth amgylcheddol, lleihau carbon a rheoli tir a bydd angen adlewyrchu hyn, meddai darparwyr dysgu, mewn cymwysterau amaethyddiaeth i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth o fewn y sector.

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni hefyd rannu gyda City & Guilds yr awydd gan ddarparwyr dysgu am gymwysterau amaethyddiaeth i gael cynnwys ychwanegol ar gadwraeth amgylcheddol, cynaliadwyedd a chynhyrchu bwyd. Mae City & Guilds wedi nodi bod eu hymgysylltiad â chanolfannau hefyd wedi amlygu'r awydd hwn. Byddan nhw'n mynd i'r afael â'r awydd hwn drwy ddatblygu cynnig dwyieithog priodol ar gyfer cymhwyster amaethyddiaeth lefel 3.

Pennod 7: Aseu

Yn y bennod yma, rydyn ni'n adrodd ar y canfyddiadau sy'n ymwneud ag aseu cymwysterau amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid.

- 7.1** Dywedodd cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ac ysgolion uwchradd â chweched dosbarth wrthyn ni fod yr asesiad ar y cymwysterau maen nhw'n eu darparu yn hylaw ac yn briodol. Dywedasant y gall meini prawf aseu fod yn ailadroddus os cânt eu hasesu ar eu pen eu hunain, ond esboniwyd eu bod yn mapio'n gyfannol ar draws unedau fel nad yw dysgwyr yn cael eu gorlwytho gan asesiadau. Mewn ymateb i gwestiynau'r arolwg ar aseu, teimlai'r rhan fwyaf o'r dysgwyr (84%) fod amrywiaeth briodol o aseu yn eu cymwysterau ac roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (88%) hefyd yn meddwl bod maint yr aseu yn hylaw.

"Mae cyflwyniadau, elfennau ymarferol ac ysgrifenedig wedi'u cynnwys [fel asesiadau]. Rydyn ni hefyd yn ymgysylltu â'r anifeiliaid ac [rydyn ni] wedi gosod ffens drydan ac wedi gwneud prawf pH."

Dysgwr

- 7.2** Dywedodd cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o golegau addysg bellach wrthyn ni fod yn rhaid i'r profion synoptig ar gyfer cymwysterau City & Guilds Technegol Uwch Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid gael eu hamserlennu'n ofalus er mwyn sicrhau lles anifeiliaid. Dywedodd darparwyr dysgu y bydden nhw'n gwerthfawrogi cyfnod aseu hirach gan mai pedair wythnos yw'r cyfnod ar hyn o bryd, a gall hyn fod yn anodd ei reoli os oes ganddynt garfannau mawr o ddysgwyr y mae angen eu hasesu.

"Yn amlwg o ran lles anifeiliaid, wyddoch chi, dim ond nifer penodol o weithiau y gellir trin yr anifeiliaid. Felly, mae gallu bodloni'r gofynion yn y cyfnod cul yn profi'n anodd pan fydd gennych chi niferoedd mawr iawn o fyfyrwyr sydd eisiau cymryd y cymwysterau."

Darlithydd mewn coleg addysg bellach

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni rannu gyda City & Guilds y canfyddiadau yn ymwneud â hyd y cyfnod asesu ar gyfer profi synoptig yng nghymwysterau Lefel 3 Technegol Uwch mewn Rheoli Anifeiliaid. Dywedodd City & Guilds wrthyn ni y byddan nhw'n archwilio'r pryderon hyn gyda chanolfannau yn hydref 2022 ac yn adolygu hyd y cyfnod synoptig.

- 7.3** Roedd safbwyntiau cymysg gan gynrychiolwyr colegau addysg bellach pan ofynnwyd iddynt am y profion synoptig a ddefnyddiwyd yng nghymwysterau Technegol Uwch City & Guilds. Dywedodd cynrychiolwyr o rai colegau addysg bellach ei fod yn asesiad cadarn o berfformiad dysgwyr a'i fod yn llai beichus nag asesu mewnol parhaus. Fodd bynnag, esboniodd cynrychiolwyr o golegau addysg bellach eraill y gall fod yn anodd ei reoli, yn enwedig gyda grwpiau mawr o ddysgwyr, a dywedasant mai dyma'r rheswm nad oedden nhw'n cynnig cymwysterau Technegol Uwch City & Guilds.
- 7.4** Dywedodd cynrychiolwyr o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith wrthyn ni fod asesiadau BHSQ wedi'u hamserlennu mewn cyfnodau penodol o amser drwy gydol y flwyddyn, ac nid yw'r rhain bob amser yn cyd-fynd â dyddiadau gorffen disgwylidig prentisiaid. Gall hyn olygu na fydd prentis yn cwblhau ei gymhwyster o fewn ei ddyddiad gorffen disgwylidig, yn enwedig os oes angen iddo ailsefyll yr asesiad.

Beth ydyn ni wedi'i wneud i oresgyn y pryder hwn?

Fe wnaethon ni gyfarfod â chorff dyfarnu BHSQ a rhannu'r canfyddiadau yn ymwneud ag amserlennu asesiadau ar gyfnodau amser penodol nad ydynt bob amser yn cyd-fynd â dyddiadau cwblhau prentis. Dywedasant wrthyn ni y byddan nhw'n cymhwyso, lle bo'n briodol, unrhyw ofynion asesu ac maen nhw'n annog canolfannau i roi gwybod iddynt am eu hanghenion. Rydyn ni wedi cyfleu hyn i'r canolfannau dan sylw.

Pennod 8: Casgliad

Credwn bydd y camau a gymerwyd gennyn ni yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan yr Adolygiad, hyd y gellir yn rhesymol.

Rydyn ni'n hyderus bydd y camau gweithredu hyn yn sicrhau bod ystod briodol o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Byddwn ni'n parhau i fonitro'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad ac yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.

Hoffen ni estyn diolch diffuant i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr Adolygiad ac a ddarparodd arbenigedd a mewnwelediad mor werthfawr. Helpodd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r sector amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid i sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn i strwythuro'r adroddiad. Rydwn ni'n gwerthfawrogi pob cyfraniad a wnaed i gefnogi'r Adolygiad hwn.

